



Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun 6ed o Dachwedd 2017** am 6.45 y.h.

**PRESENNOL** :- Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd D Hainge

Y Dirprwy Faer y Cynghorydd J Wynn Jones

Y Cynghorwyr    Conor Savage (Is-Gadeirydd)

Mrs L Day

D Fearnley

M Hughes

Owen Hurcum

Colin King

Enid Parry

Gareth Roberts

Mair Rowlands

Ifan James

Luke Tugwell

Elin Walker Jones

John Wyn Williams

Huw Wyn Jones

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

#### 124/17 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Keith Jones, J M Martin a G O Roberts.

#### 125/17 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

#### 126/17 MATERION BRYD

Adroddodd Clerc y Dref ar ddamwain ar Faes Parcio'r Pier lle aeth cerbyd yn erbyn Rhwystr y Maes Parcio a dinistrio'r rhwystr a'r mecanwaith. Yna aeth y cerbyd i mewn i gerbyd arall ac yna i mewn i ochr Tŷ'r Pier. Byddai camau priodol yn cael eu cymryd drwy'r Cwmnïau Yswiriant i sicrhau nad oedd Cyngor y Ddinas yn wynebu colled ariannol.

#### 127/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD** : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C17/0986/11/LL** Cais llawn i godi adeilad deulawr efo 2 fflat hunangynhaliol. Garejis / Tir Gwag, Stryd yr Eglwys.

**Gwrthwynebiad ar sail gor ddatblygu'r safle a'r effeithiau andwyol posibl ar y llefydd parcio cyfyngedig iawn sydd ar gael yn y cyffiniau.**

**C17/0944/11/LL** Newid defnydd siop (A1) i gaffi (A3) Uned 16, Canolfan Menai. **Dim gwrthwynebiad.**

**C17/1021/11/LL** Codi estyniad ar ben y to fflat cefn presennol i greu ail lawr. 397 Ffordd Caernarfon. **Dim gwrthwynebiad.**

**C17/1044/11/LL** Addasu ac ehangu'r eiddo yn cynnwys estyniad deulawr, addasiadau i siâp y to, gosod balconïau, codi estyniad to fflat unllawr gyda theras. 59 Ffordd Garth Uchaf. **Gwrthwynebiad,**

Ni chymrodd y Cynghorydd H Wyn Jones, fel Aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, ran yn y drafodaeth ar y ceisiadau uchod na phleidleisio arnynt heblaw am y ceisiadau yn ei Ward ei hun.

#### 128/17 ADOLYGIAD O'R SECTOR CYNGHORAU CYMUNED A THREFF YNG NGHYMRU

Atgoffodd Clerc y Dref y Pwyllgor am Banel Annibynnol Llywodraeth Cymru a oedd wedi'i sefydlu i adolygu Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Roedd y Panel wedi gofyn i bob Cyngor Tref a Chymuned am eu barn ar bedwar cwestiwn penodol.

Adroddodd Clerc y Dref fod Un Llais Cymru'n trefnu sawl digwyddiad ymgynghori ar y pwnc hwn a bod gwahoddiad i Gyngor y Ddinas fynychu'r digwyddiad perthnasol yng Nghaernarfon ar 28 Tachwedd.

**PENDERFYNWYD**: y dylai Clerc y Dref a sawl un o'r Aelodau fynychu'r digwyddiad yng Nghaernarfon a'r rheiny sy'n mynd yno i gwrdd yn gyflym cyn y digwyddiad. Clerc y Dref i wneud y trefniadau i gyd.

#### 129/17 ANFONEBAU I'W TALU

Nodwyd cymeradwyaeth i dalu'r anfonebau fel y'u ceir yn y Rhestr, yn rhoi cyfanswm o £26,322.97.

**PENDERFYNWYD**: nodi'r taliad.

#### 130/17 MATERION PRIFFYRDD - Dim

#### 131/17 MATERION TRWYDDEDU -Dim.